

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 12fed Chwefror 2018

Presennol- Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Marion Bettaney, Terry Bullock, Cyng. Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts Clerc.
Ymddiheuriadau -- Nick Corney, Siân Godbert, Janet Charlton

Datgan diddordeb – Dim datganiad

.

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod yr 8fed Ionawr 2018

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.1]Anfoneb / Adnewyddu Biniau Cwn

Penderfynwyd cynnig talu £610.50 Gyngor Sir Conwy am osod y biniau cwn yng Nghae Llan

[1.2] Tai Fforddiadwy Pentre' Du.

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.3] Ffordd yn Arwain i fyny Heibio Moduron Betws/Arwydd fod y Ffordd yn Anaddas i loriau

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.4] Pont-y-Pair/Ffordd Coed Cynhelir

Nodwyd bod adran draffig y Cyngor Sir yn bwriadu cysylltu.

[1.5] Adolygiad Arwyddion Twristiaeth/Dyddiad Cau 19eg Ionawr 2018.

Dywedodd y clerch fod swyddog Treftadaeth a Diwylliant y Cyngor Sir wedi cael golwg ar yr arwyddion, ar gyfer gwneud cais am gymhorthdal i'w hadnewyddu.

[1.6] Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst 2019/ Targed Ariannol

Nodwyd bod siop Tandderwen wedi gwneud cyfraniad o £500.00 ar gyfer gwobr gerddorol.

Y brif Agenda

[1.7] Materion Cynllunio

[a] Cais ôl-weithredol i gadw decin, Gwest Pont-y-Pair Ffordd Caergybi, Betws-y-Coed.

[b] Dymchwel injan a cherbydau trên bach a chael trên a cherbydau newydd ayb, ynghyd a chaniatâd cadwraeth ar gyfer dymchwel storfa'r trên ar cerbydau. Amgueddfa a Siop Reilffordd Dyffryn Conwy, Ffordd yr Hen Eglwys, Betws-y-Coed.

[c] Dymchwel yr estyniad cefn presennol a chodi estyniad cefn unllawr newydd. Clogwyn Haul, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r pedwar cais uchod.

[d] Datblygiad ger Gwesty'r Waterloo.

Penderfynwyd gohirio 'r mater nes daw cais cynllunio lawn.

[1.8] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Ionawr 2017

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Ionawr 2017.

[1.9] Cyllideb 2018/19

Cymeradwywyd y ddogfen gyllideb a baratowyd gan y clerch.

[2] Meddygfa Betws-y-Coed

Cyfeiriodd y clerch at gais gan y feddygfa am gyfraniad o £100.00 tuag at y gost o ddsbarthu "prescriptions". Penderfynwyd cyfrannu £100.00 ond hefyd i anfon gair fod rhai o'r aelodau o'r farn mai cyfrifoldeb y feddygfa oedd ariannu'r gwasanaeth fel ydi'r drefn mewn ardaloedd eraill.

[2.1] Cynllun Datblygu Gwledig yng Nghymru

Cafwyd amlinelliad gan Ela Fon Williams Swyddog Diwylliant a Threftadaeth Cyngor BS Conwy o gyfle sut i'r gymuned gymryd mantais o'r cynllun. Deallwyd fod y cynllun yn rhaglen buddsoddiad o saith mlynedd. Dywedodd hefyd bod cefnogaeth i gymunedau a busnesau ar gael i geisio ffynonellau eraill o arian

[2.2] Cyngor BS Conwy/Gorchmynion Rheolaeth Cwn

Nodwyd bod cynnig i osod rheol bod rhaid i gwn fod ar dennyn pob amser pan ar lwybrau yn amgylchu a chroesi'r Clwb Golff. Penderfynwyd cefnogi'r cynnig.

Y clerch hefyd i gwblhau'r holiadau yn cynnwys yr holl gynigion ar gyfer rheolaeth cwn.

[2.3] Canghennau / Ffordd yr A5 o Bentre' Du i Betws

Y clerch i gysylltu gyda Chyngor BS Conwy i gesio cael torri a thacluso'r canghennau.

[2.4] Bwrdd Hysbysu Pentre' Du

Y clerch i drefnu bwrdd newydd

[2.5] Dathliant Can Mlynedd a Hanner, Rheilffordd Betws-y-Coed

Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts bod trefniadau mewn llaw ar gyfer dathliant yng Nghae Llan ar y 16eg Fehefin i nodi can mlynedd a hanner ers i'r rheilffordd ddod i Betws. Bydd manylion pellach ar gael ymhen ychydig.

[2.6] Goleuadau Stryd gyferbyn a Bwyty'r Dragon

Cytunodd y Cyng Elisabeth Roberts i wneud ymholiadau ynglyn a'r colofnau nad oedd golau arnynt

Nodwyd y wybodaeth ganlynol

[a] APCE –Cynllun Datblygu Lleol Eryri Diwygiedig 2016-2031

[b] Cyngor BS Conwy – Menter Cadwch Cymru'n Daclus

Cadeirydd_____